



Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer y Cylchlythyr neu Ddigwyddiadau

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Pryd bynnag y byddwch chi'n darparu eich gwybodaeth i ni mae dyletswydd gyfreithiol arnom ni i'w defnyddio yn unol â phob cyfraith berthnasol ar gyfer diogelu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 (cyfeirir at y cyfreithiau hyn fel y "**cyfreithiau diogelu data**" yn yr hysbysiad hwn).

Eich gwybodaeth bersonol

Byddwn yn casglu eich enw a'ch cyfeiriad cartref/gwaith er mwyn ichi allu derbyn copi caled o'r cylchlythyr ac enw a chyfeiriad e-bost ar gyfer derbyn e-gylchlythyr.

Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Dim ond er mwyn i chi allu derbyn ein cylchlythyr a manylion unrhyw ddigwyddiadau rydych chi wedi gofyn i ni amdanyn nhw y byddwn hi'n defnyddio eich gwybodaeth.

Y sail gyfreithiol rydym yn ei defnyddio i brosesu eich data yw eich caniatâd.

Os byddech chi'n hoffi cael copi o'n **cylchlythyr** :

- Drwy'r post, ticiwch yma
- Drwy e-bost, ticiwch yma

O bryd i'w gilydd, byddem yn hoffi cysylltu â chi i roi manylion **digwyddiadau** eraill rydym yn eu cynnal i chi. Os ydych chi'n cytuno i ni gysylltu â chi at y diben hwn, ticiwch isod i ddweud wrthym sut rydych am i ni gysylltu â chi:

Post E-bost

Ffôn ☐ Neges testun ☐

Fydd rhywun yn cysylltu â mi at ddibenion marchnata?

Dim ond os ydych chi wedi cytuno uchod eich bod yn hapus i ni wneud hynny y byddwn ni'n anfon negeseuon e-bost cysylltiedig â marchnata neu gylchlythrau drwy'r post atoch chi.

Rhannu Gwybodaeth â Thrydydd Partïon

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd chi oni bai ei bod yn ofynnol i ni yn ôl y gyfraith neu fod gennym ganiatâd cyfreithiol i wneud hynny.

Trosglwyddo i wledydd eraill

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Am faint y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

Dim ond cyhyd ag y bo angen i ni wneud hynny i gyflawni'r pwrpas roeddem wedi casglu'r wybodaeth ar ei gyfer y byddwn yn cadw eich data personol, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

Er mwyn pennu'r cyfnod sy'n briodol i ni gadw data personol, rydym yn ystyried natur a sensitifrwydd y data personol a maint y data sydd gennym, y perygl posib o niwed yn sgil defnyddio neu ddatgelu eich gwybodaeth bersonol heb awdurdod, at ba ddibenion rydym yn prosesu eich data personol ac a oes modd inni gyflawni'r dibenion hynny mewn rhyw ffordd arall, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Os nad ydych chi eisiau clywed oddi wrthym eto, rhowch wybod i ni ar unrhyw bryd. Mae pob cylchlythyr ac e-bost yn egluro sut mae gwneud hyn. Wedyn, byddwn yn tynnu eich enw oddi ar ein cronfa ddata ar unwaith.

Eich hawliau

O dan gyfreithiau diogelu data, mae gennych chi hawliau mewn cysylltiad â'ch gwybodaeth. Mae gennych chi hawl i ofyn i ni am gopi o'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi.

Hefyd, mae gennych chi hawl i ofyn i ni wneud y canlynol:

- cywiro unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch chi;
- mewn rhai amgylchiadau penodol, dileu gwybodaeth amdanoch chi;
- rhoi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at rai dibenion penodol.

Byddwn yn gwneud ymdrech resymol sy'n gyson â'n dyletswydd gyfreithiol i gyflenwi, cywiro neu ddileu gwybodaeth bersonol amdanoch chi ar ein ffeiliau. Weithiau, efallai na fyddwn yn gallu gwneud yr hyn rydych chi'n gofyn. Ond byddwn yn dweud wrthoch chi os mai felly y mae ac yn egluro pam.

Os ydych chi'n gwneud cais, bydd angen i chi brofi pwy ydych chi gyda 2 ddarn o wybodaeth cymeradwy (fel pasbort a bil cyfleustodau sydd ddim hŷn na 3 mis). Cyn gynted ag y byddwn wedi cael y rhain, ein nod yw ymateb i chi o fewn mis.

Fel arfer, nid ydym yn codi ffi arnoch am ddelio â'ch cais am gopi o'ch gwybodaeth bersonol. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y gyfraith yn caniatáu i ni godi ffi. Byddwn yn dweud wrthoch chi os mai felly y mae ar yr adeg y byddwch yn gwneud y cais.

Os ydych chi am arfer unrhyw rai o'ch hawliau, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data (mae'r manylion cyswllt isod).

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd a byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau.

Sut mae cysylltu â ni

Ysgrifennwch at: Swyddog Diogelu Data
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Ffôn: 03442 640 670

